## Trosolwg

Mae a wnelo’r safon hon â chynnal a gwella’r cyfleusterau a’r gwasanaethau rydych yn gyfrifol amdanynt. Rhoddir llawer o bwyslais ar iechyd, diogelwch, asesu risg a rheoli risg. Fodd bynnag, mae’r safon hefyd yn ymdrin â gwella’r cyfleusterau a gwasanaethau rydych yn eu darparu mewn ymateb i anghenion defnyddwyr.
*
*

*
*

**Prif ddeilliannau’r safon hon ydy:**

1. monitro gofynion y ddarpariaeth chwarae
2. rheoli risg o fewn y ddarpariaeth chwarae
3. cynnal a gwella cyfleusterau a gwasanaethau i gefnogi’r ddarpariaeth chwarae

Mae’r safon hon ar gyfer unigolyn sy’n gweithio ym maes gwaith chwarae, ac sy’n rheoli amryw o safleoedd traws-sector; unigolyn sy’n gweithio mewn rôl sy’n cynnwys rheoli nifer o leoliadau gwaith chwarae sydd â’r nod pennaf o ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc  chwarae fel maen nhw’n dewis ac yn dymuno ei wneud. Byddant yn gyfrifol am redeg y lleoliadau gwaith chwarae hyn, ac yn gyfrifol am staff niferus a’u lles.

**Mae’r safon hon yn ategu’r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â’r rhain, a lle bo’n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth fyfyrio.  **

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Monitro gofynion y ddarpariaeth chwarae**

1. cynnal archwiliadau rheolaidd o'r **ddarpariaeth chwarae**, yn unol â gofynion cyfreithiol, rheoleiddio a sefydliadol
2. cadw cofnodion yn unol â gofynion cyfreithiol, rheoleiddio a sefydliadol
3. ymgynghori â staff a **defnyddwyr** y **ddarpariaeth chwarae** a nodi'r meysydd y byddai'n bosib eu gwella yn eu barn nhw
4. galluogi staff, rhieni, gofalwyr ac asiantaethau allanol i weld y cofnodion yn ôl yr angen, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
5. rhoi adroddiadau i'ch sefydliad ac asiantaethau allanol

**Rheoli risg o fewn y ddarpariaeth chwarae**

1. sefydlu gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg i lefel sy'n dderbyniol i'ch sefydliad ac yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio
2. cynnal asesiadau risg-budd o'r **ddarpariaeth chwarae** yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio
3. gofyn am gyngor gan rywun cymwys os nad ydych yn siŵr sut i leihau'r risgiau a nodwyd
4. sicrhau bod pawb sy'n defnyddio'r **ddarpariaeth chwarae** yn derbyn gwybodaeth gywir am y peryglon a'r risgiau a'r camau rydych chi wedi eu cymryd i'w rheoli
5. cynnal adolygiadau rheolaidd o'ch gweithdrefnau i asesu a rheoli risgiau yn unol â gofynion cyfreithiol, rheoleiddio a sefydliadol

**Cynnal a gwella cyfleusterau a gwasanaethau i gefnogi'r ddarpariaeth chwarae**

1. nodi agweddau ar y **ddarpariaeth chwarae** nad ydyn nhw'n bodloni gofynion cyfreithiol, rheoleiddio a sefydliadol neu ddisgwyliadau eich **defnyddwyr**
2. ymgynghori â staff a **defnyddwyr** i nodi cyfleoedd ar gyfer cynnal a gwella
3. cytuno ar gyllideb ac amserlen ar gyfer y gwaith
4. rheoli'r amserlen ar gyfer gwneud gwaith cynnal a gwelliannau i'r **ddarpariaeth chwarae** yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad er mwyn amharu cyn lleied â phosib ar y ddarpariaeth
5. monitro'r gwaith cynnal a gwelliannau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwneud yn unol â'r amserlen a'r gyllideb ac y byddant yn bodloni gofynion

cyfreithiol, rheoleiddio a sefydliadol

6. rhoi gwybod i'r holl staff a **defnyddwyr** sut mae'r gwaith cynnal a'r gwelliannau yn dod yn eu blaen a sôn am unrhyw newidiadau neu oedi
7. cadw cofnodion cywir o'r gweithgareddau cynnal a gwella

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Monitro gofynion y ddarpariaeth chwarae**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy’n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o’r egwyddorion i’ch gwaith chi
2. y gofynion cyfreithiol, rheoleiddio a sefydliadol sy’n gymwys i’ch **darpariaeth chwarae** a pam eu bod yn bwysig
3. y cofnodion y mae disgwyl i chi eu cadw yn unol â gofynion cyfreithiol, rheoleiddio a sefydliadol a phwy all eu gweld
4. y gofynion cyfreithiol, rheoleiddio a sefydliadol ar gyfer archwilio’r **ddarpariaeth chwarae** yn rheolaidd a pha mor aml y dylid cynnal archwiliadau
5. gweithdrefnau effeithiol ar gyfer ymgynghori â staff a **defnyddwyr** eich **darpariaeth chwarae**
6. pwysigrwydd ymgynghori ac ymwneud â staff a **defnyddwyr** eich **darpariaeth chwarae**
7. yr adroddiadau sydd arnoch angen eu llunio ar gyfer eich sefydliad ac asiantaethau allanol a pham eu bod yn bwysig

**Rheoli risg o fewn y ddarpariaeth chwarae**

---

**

***8. lefelau derbyniol o risg yn unol â gofynion sefydliadol, cyfreithiol a rheoleiddio ar gyfer y math o beryglon rydych yn debygol o ddod ar eu traws yn eich** *darpariaeth chwarae**

9. sut i gynnal asesiadau risg-budd ar bob agwedd o’r **ddarpariaeth chwarae**, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio
10. canllawiau cenedlaethol cydnabyddedig cyfredol sy’n ymwneud â rheoli risg, gan barhau i gynnig her i blant a phobl ifanc wrth chwarae
11. pwy ddylech eu cynnwys wrth gynnal asesiadau risg-budd
12. pwy neu beth sy’n ffynhonnell wybodaeth gymwys ar faterion yn ymwneud â risg a rheoli risg
13. sut i gyfathrebu gyda staff a **defnyddwyr** ar faterion yn ymwneud â risg a rheoli risg
14. y risgiau penodol y gall rhai **defnyddwyr** eu hwynebu a sut i’w rheoli’n effeithiol

15. pwysigrwydd cynnal adolygiadau rheolaidd a, lle bo’r angen, diweddaru asesiadau risg-budd, yn unol â gofynion cyfreithiol, rheoleiddio a sefydliadol

**Cynnal a gwella cyfleusterau a gwasanaethau i gefnogi’r ddarpariaeth chwarae**

1. pwysigrwydd cynnal ansawdd eich **darpariaeth chwarae** a cheisio gwneud gwelliannau parhaus
2. dulliau o ymgynghori ac ymwneud â staff a **defnyddwyr** i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella
3. pryd dylid gofyn am gyngor ar faterion yn ymwneud â gwella’r **ddarpariaeth chwarae** ac i bwy ddylech chi ofyn
4. gweithdrefnau ar gyfer gwneud gwaith cynnal a gwelliannau i’ch **darpariaeth chwarae** er mwyn amharu cyn lleied â phosib ar y ddarpariaeth
5. pwysigrwydd cadw at yr amserlen a’r gyllideb a materion a allai godi
6. pwysigrwydd cadw cofnodion o’r newidiadau i’ch **darpariaeth chwarae**

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Darpariaeth chwarae**

*Cyfleusterau*

1. tir ac adeiladau
2. offer chwarae ac adnoddau eraill
3. toiledau a darpariaeth hylendid eraill
4. ardaloedd paratoi a gweini bwyd a diod

*Gwasanaethau* (o leiaf 5 allan o 8)

1. chwarae
2. iechyd, diogelwch ac amddiffyn plant a phobl ifanc
3. cofnodi presenoldeb
4. teithiau oddi ar y safle
5. darparu bwyd a diod
6. cynhwysiant
7. ymateb i ymddygiad
8. gweithio gyda rhieni a gofalwyr

**Defnyddwyr**

1. plant a phobl ifanc
2. rhieni a/neu ofalwyr
3. grwpiau sy’n defnyddio’r cyfleusterau neu wasanaethau
4. grwpiau sy’n draddodiadol yn wynebu rhwystrau o ran mynediad

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth